monmouthshire
sir fynwy

**PENDERFYNIADIAU AELOD CABINET UNIGOL**
**COFNOD PENDERFYNIADAU**

**DYDDIAD GWNEUD PENDERFYNIAD: Dydd Mercher, 13 Ionawr 2021**

**DAW'R PENDERFYNIAD I RYM AR: Dydd Gwener, 22 Ionawr 2021**
*Decisions made by full cabinet and individual cabinet members are subject to "Call-in" by the appropriate Select Committee. Should a decision be subject to call-in it will not take effect as stated above and will be presented again at a later date.*

| Eitem Rhif | Teitl | Diben, Ymgynghoriad ac Awdur | Datganiad Diddordeb | Penderfyniad |
|---|---|---|---|---|
| **1** | MONLIFE - RHAGLEN AD-DREFNU GWASANAETH CASGLU'R AMGUEDDFA | Fel y nodir yn yr adroddiad | Dim | DATRYS:<br>Cytuno ar ddileu cofnodion a'r gweithgareddau gwaredu ar gyfer yr eitemau arfaethedig yn unol ag Adran 4 o Becyn Cymorth Cymdeithas yr Amgueddfeydd. (Mae'r rhestr i'w gweld yn Atodiad 2).<br><br>Noder bod hyn yn ffurfio'r trydydd o gyfres. Bydd rhestrau pellach ar gyfer yr eitemau i'w gwaredu yn cael eu cyhoeddi wrth i ni wneud argymhellion. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **2** | DIWYGIO AIL DDATGANIAD TECHNEGOL RHANBARTHOL MWYNDERAU (RTS2) | Fel y nodir yn yr adroddiad | Dim | DATRYS:<br>Roedd yr Aelod Cabinet ar gyfer Mentergarwch a Chynllunio Defnydd Tir wedi cymeradwyo'n rhannol y Datganiad Technegol Rhanbarthol (2ail Adolygiad) o ran dosraniadau unigol ar gyfer agregau ardal Sir Fynwy unig ac ymatal rhag cytuno i'r egwyddor o gwrdd â'r gofynion agregu isranbarthol ehangach ar hyn o bryd yn sgil y diffyg gwybodaeth o ran goblygiadau hyn ar y CDLlRh.<br><br>Roedd yr Aelod Cabinet wedi cytuno i fwrw ymlaen gyda pharatoi Datganiad o Gydweithredu Isranbarthol (SSRC) er mwyn gwyntyllu'r opsiynau o sut y mae modd cwrdd â gofynion y dosrannu isranbarthol er mwyn caniatáu'r CDLlRh i symud i'r broses gynllunio. Gellir cytuno ar SSRC lefel swyddog o dan bwerau dirprwyedig, a hynny ar yr amod bod yr holl Awdurdodau Cynllunio Lleol unigol o fewn yr isranbarth yn derbyn eu dyraniadau unigol ar gyfer yr agregau yn eu hardaloedd ac yn gwneud dyraniadau priodol yn eu CDLlRh er mwyn diwallu'r fath anghenion. Os oes angen i Sir Fynwy i gwrdd â dosraniadau awdurdod arall, bydd angen i'r Cabinet i gytuno a chymeradwyo unrhyw ddatganiad perthnasol o gydweithredu isranbarthol. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **3** | SAFONAU ISAFSWM O RAN EFFEITHLONRWYDD YNNI - SECTOR RHENTU PREIFAT (PRS). | Fel y nodir yn yr adroddiad | Dim | DATRYS:<br>Bod Swyddogion o fewn yr adran Diogelu Cyhoeddus sydd wedi eu hawdurdodi o dan Ddeddf Ynni 2011 yn cael eu hawdurdodi o dan Reoliad 35 o Reoliadau Effeithiolrwydd Ynni (Eiddo Rhentu Preifat) (Lloegr a Chymru) 2015.<br><br>Dylid diwygio'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion yng Nghyfansoddiad y Cyngor gan y Swyddog Monitro er mwyn adlewyrchu'r awdurdodiad newydd yma.<br><br>Cytuno a mabwysiadu'r Protocol Gorfodi fel dull y Cyngor er mwyn delio gydag achosion o beidio â chydymffurfio gan gynnwys defnyddio Cosbau Penodedig a Hysbysiadau Cydymffurfiaeth lle bo'n briodol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Additional Information:** | | | | |
| | | Fel y nodir yn yr adroddiad | Dim | |